**Cyfarfod Llawn 2001-2002 (10)**

**Dydd Mawrth, 19 Mehefin 2001**

**AGENDA**

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
**Datganiad Busnes: y Trefnydd**
Cliciwch yma am y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 3**
**Cymeradwyo Rheoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion)(Cymru) (Diwigio) 2001**
*NDM699* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion)(Cymru) (Diwygio) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mai 2001.

*NDM700* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. yn ystyried yr adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi o dan Reol Sefydlog 11.5 unrhyw faterion sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion)(Cymru)(Diwygio) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mai 2001;

2. yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mai 2001 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2001.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Cliciwch yma i weld Memorandwm Cywiriada

**Eitem 4**
**Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Rhif 13**
*NDM701* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

O dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol, 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) (Rhif 13) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Llun 11 Mehefin 2001.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau - Ar gael yn Saesneg yn unig

**Eitem 5**
**Dadl ar y Ddeddf Llywodraeth Leol (Rhan 1)**
*NDM702* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
1. Yn croesawu darpariaethau Mesur Llywodraeth Leol y Cynulliad (y cafodd y manylion amdano eu hanfon drwy'r e-bost at yr Aelodau ar 12 Mehefin 2001) a fydd yn golygu y bydd yn ofynnol i lywodraeth leol foderneiddio ei chyfansoddiadau a'i strwythurau rheoli gwleidyddol ac a fydd yn arwain at lywodraeth leol fwy tryloyw ac atebol.

2. Yn nodi'r canllawiau drafft ar gyfer awdurdodau lleol sy'n dwyn y teitlau '*Consultation Guidelines for County and County Borough Councils in Wales*', a '*Guidance for County and County Borough Councils in Wales on Executive Arrangements*' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mehefin 2001.

Cliciwch yma i weld y *Consultation Guidelines for County and County Borough Councils in Wales*' - Ar gael yn Saesneg yn unig. Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr
Cliciwch yma i weld y *Guidance for County and County Borough Councils in Wales on Executive Arrangements*' - Ar gael yn Saesneg yn unig. Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr
Cliciwch yma i weld y Cyfarwyddyd Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Cynigion ar gyfer Trefniadau Gweithrediaeth) (Cymru) 2001
Cliciwch yma i weld y Cyfarwyddyd Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Cyfansoddiad Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2001
Cliciwch yma i weld y Cyfarwyddyd Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Cynigion Wrth-gefn) (Cymru) 2001

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol*

(1)+(2)+(4)+(7)
(3)
(5)+(6)

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Dileer 'croesawu' yn llinell 1 a rhoi 'nodi' yn ei le

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Dileer popeth ar ôl 'gwleidyddol' ym mhwynt 1 a rhoi'r canlynol yn ei le: ', gan nodi mai nod y mesur hwn yw darparu llywodraeth leol fwy tryloyw ac atebol.'

**Gwelliant 3 - Ron Davies (Caerffili)**
Ychwaneger ar ddiwedd pwynt 1:
'a, chan gredu yn ysbryd atebolrwydd, democratiaeth a chynhwysiant, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i'r Comisiwn a sefydlwyd i ymchwilio i'r gwahanol ffurfiau o gynrychiolaeth gyfrannol ar gyfer Llywodraeth Leol ymgynghori'n gyntaf â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhoi adroddiad o'i ddarganfyddiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn symud ymlaen ag unrhyw agwedd ar ei adolygiad.'

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwaneger fel pwynt 2 newydd ac ailrifo'r pwynt olaf yn unol â hynny:
2. 'Yn galw ar lywodraeth leol i gyflwyno'r strwythurau agored a hygyrch hyn a fydd yn adfer ffydd mewn llywodraeth leol a'i galluogi i fod yn arweinydd i'w chymuned, gan lywodraethu'n lleol.'

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ychwaneger pwynt newydd, sy'n darllen:
Yn gofyn i'r Gweinidog grisialu ar ffurf canllawiau, y dylai'r holl gofnodion a dogfennau ategol, o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001, fod ar gael i holl aelodau etholedig Cyngor neu Awdurdod os byddant yn gwneud cais amdanynt, a hynny fel mater o hawl yn sgil eu haelodaeth o'r Cyngor neu'r Awdurdod hwnnw.

**Gwelliant 6 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ychwaneger pwynt newydd, sy'n darllen:
Yn gresynu at y ffaith na nodir y dylai aelodau'r wrthblaid yn y cyngor gadeirio pwyllgorau craffu, ac yn galw ar y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau i gyflwyno'r amod hwn ar y cyfle cyntaf.

**Gwelliant 7 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwaneger fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
'Yn mynegi pryder ein bod unwaith eto yn gorfod derbyn deddfwriaeth a gafodd ei drafftio ar gyfer Lloegr ac sy'n anaddas i Gymru, ac yn gresynu at y diffyg grym i ffurfio'n deddfwriaeth ein hunain sy'n mynd i'r afael ag anghenion unigryw Cymru.

**Eitem 6**

**Cynnig Cyfansawdd i Gymeradwyo:**
*NDM703* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

1. Yn cymeradwyo **Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001**, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mehefin 2001.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

2. Yn cymeradwyo **Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) 2001**, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mehefin 2001.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

3. Yn cymeradwyo **Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd)(Cymru) 2001**, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd)(Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mehefin 2001.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

4. Yn cymeradwyo **Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cynigion ar gyfer Trefniadau Gweithrediaeth) (Cymru) 2001**, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder

yn y gorchymyn drafft, Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cynigion ar gyfer Trefniadau Gweithrediaeth) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mehefin 2001.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

5. Yn cymeradwyo **Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynigion ar gyfer Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001**, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy’n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynigion ar gyfer Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mehefin 2001.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

6. Yn cymeradwyo **Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2001**, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy’n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda)(Deisebau a Chyfarwyddiadau)(Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mehefin 2001.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

7. Yn cymeradwyo **Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001,** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy’n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mehefin 2001 a’r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mehefin 2001.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Cliciwch yma i weld Memorandwm Cywiriada

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Iau, 21 Mehefin 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**